ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD

Chwefror 2019

GGG / Rookie Rugby

Ar ddydd Llun 4ydd o Chwefror trefnodd Tim Chwaraeon am Oes / prosiect Gall Genod Gwynedd / Rookie Rugby ddiwrnod lle cafodd merched ifanc ardal Dwyfor y cyfle i drio chwaraeon gwahanol mewn un lleoliad.

Roedd yn agos i 300 o ferched wedi cymryd rhan yn y diwrnod ar gaeau Ysgol Eifionydd, roedd y bore wedi'i dargedu at ysgolion cynradd ac roedd 10 ysgol gynradd dalgylch Dwyfor wedi mynychu - Ysgol Llanstumdwy, Ysgol Cymerau, Ysgol Garn, Ysgol Borth y Gest, Ysgol Abererch, Ysgol Llanalhaearn, Ysgol Bro Plennydd, Ysgol Chwilog, Ysgol Treferthyr ac Ysgol Eifion Wyn.

Roedd 4 o wahanol weithgareddau ar gael, Dodgeball, Tenis, Dawns ac amrywiaeth o wahanol weithgaredd rygbi.

Yn y prynhawn cafodd genethod blwyddyn 7, 8 a 9 Ysgol Eifionydd y cyfle i gymryd rhan a bu i'r disgyblion i gyd fwynhau'r diwrnod. Diolch mawr i'r holl staff a'r gwirfoddolwyr am helpu, a diolch i'r athrawon am ddod a'r plant i'r digwyddiad.

Mae dau glwb hwb GGG (gall genod Gwynedd) wedi ei leoli yng Nghaernarfon – Bob dydd Llun 4-5pm i'r Cynradd / 5-6pm i'r Uwchradd.
Bob dydd Iau – Plas Heli – Pwllheli 4 – 5pm Cynradd / 5:30 – 7pm Uwchradd.

Diolch i Nigel Hughes am ddod draw i dynnu lluniau.

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL
CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

GILBERT
Hamleys
Hamleys

Yr Adran Gymraeg - Yn ddiweddar treuliodd Blwyddyn 9 awr yng nghwmni y Prifardd Twm Morris yn cael cyflwyniad i'r cynganeddion. Diolch yn fawr i Dyddgu am drefnu, roedd y disgyblion wedi dysgu llawer a chael amser difyr yn ei gwmni.

Traws Gwlad

Disgyblion a fu'n cymryd rhan yn y Trawsgwlad ar 16eg o Ionawr yn Nolgellau. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd.